**Cofnod o benderfyniadau a wnaed yng Nghyfarfod Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

**Ddydd Llun 15 Gorffennaf 2024**

| Eitem Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| 1 | Presenoldeb ac Ymddiheuriadau | Cynghorwyr yn bresennol: Dylan Rees-Cadeirydd; Paul Cunningham-Dirprwy (o 09:40); Marion Bateman; Tina Claydon; Adele Davies-Cooke (o 09:47); Sharon Doleman; Jeff Evans; Chrissy Gee; Alan Hughes; John Brynmor Hughes; Gareth R Jones; Marc Jones; Gwynfor Owen; Beverley Parry-Jones; Arwyn Herald Roberts; Austin Roberts; Rondo Roberts; Paul Rogers; Gareth Sandilands; Dale Selvester; Michelle Walker; Mark Young.<br><br>Ymddiheuriadau: Cynghorwyr: Rob Triggs; Gareth A Roberts; Carol Beard<br><br>Yn absennol: Cynghorwyr: Bryan Apsley; Chris Hughes; John Ifan Jones<br><br>Hefyd yn bresennol: Dawn Docx; Helen MacArthur; Justin Evans; Anthony Jones; Dafydd Edwards; Gareth Owens; Matthew Powell; Lisa Allington; Tracey Williams; George Jones |
| 2 | Penodi Cadeirydd 2024/25 | Bod y Cynghorydd Dylan Rees yn cael ei ethol yn Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am flwyddyn y cynghorau 2024/25. |
| 3 | Datganiadau o Fuddiant | Datganwyd buddiant personol gan y Clerc ar ran yr holl Aelodau ar gyfer yr eitem tâl. |
| 4 | Penodi Dirprwy Gadeirydd 2024/25 | Bod y Cynghorydd Paul Cunningham yn cael ei ethol yn Ddirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am flwyddyn y cynghorau 2024/25. |
| 5 | Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio 2024/25 | i) Dylai Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio gael eu penodi gan yr Awdurdod llawn a dylai'r cyfansoddiad gael ei newid i adlewyrchu hyn;<br>ii) Bod yr Awdurdod yn penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2024/25;<br>iii) Ethol y Cynghorydd Mark Young i wasanaethu fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio am flwyddyn y cynghorau 2024/25; ac<br>iv) Ethol y Cynghorydd Gwynfor Owen i wasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio am flwyddyn y cynghorau 2024/25. |

| Eitem Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| 7 | Pwyllgorau a Phenodiadau | i) cadarnhau aelodaeth yr Awdurdod, penodiadau i bwyllgorau a phenodiadau allanol fel y nodir yn y papur a ddarparwyd. |
| 8 | Dyddiadau Cyfarfodydd 2024/25 | i) cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod llawn, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio, gyda'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 21 Ebrill 2025 wedi'i newid i 28 Ebrill 2025. |
| 9 | Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol yr Aelodau | i) nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) mewn perthynas â lwfansau a chydnabyddiaeth ariannol yr Aelodau a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2024;<br>ii) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc ddiweddaru rhestr cydnabyddiaeth ariannol yr Aelodau yng nghyfansoddiad yr Awdurdod a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i restr 2024/25 o bryd i'w gilydd yn ystod blwyddyn y cynghorau, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol; a<br>iii) chymeradwyo'r rhestr o daliadau a wnaed yn ystod 2023/24 fel sy'n ofynnol gan y Panel |